# Newborough

## Ateb eich cwestiynau

## Niwbwrch - Ateb eich Cwestiynau

**Dyma'r atebion i faterion cyfredol penodol a godwyd yn sesiwn galw heibio Niwbwrch, dydd Mercher 24 Chwefror 2016.**

**Bydd materion eraill y tynnwyd ein sylw atynt yn cael eu hystyried wrth i ni ddrafftio'r cynllun adnodd naturiol ar gyfer dyfodol tymor hir Niwbwrch.**

**Cwestiwn:** Sut y bydd y gât newydd yn cadw'r ceffylau ar y gwningar? h.y. Gall y gât ym maes parcio Penlon gael ei gadael yn agored yn hawdd.

**Ateb**: Gosodwyd y gât hon gan Gyngor Sir Ynys Môn. Rydyn ni wedi mynegi pryderon cyffelyb ac rydyn ni'n aros am ateb.

**Cwestiwn:** A yw'r arian a godir o'r meysydd parcio yn dod yn ôl i'r ardal hon?

**Ateb**: Ydy. Mae'n mynd yn rhan o'r gyllideb ar gyfer staffio, cynnal cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr, a chynnal y gwaith coedwigo a chadwraeth.

**Cwestiwn**: Ble mae'r llwybrau MP3? Sut mae dod o hyd i agwedd synhwyraidd arwyddion i helpu rhai sydd â phroblemau golwg neu awtistiaeth?

**Ateb**: Mae asesiad hygyrchedd wedi ei gwblhau yn ddiweddar er mwyn sicrhau ein bod yn darparu ar gyfer ymwelwyr o bob gallu yn Niwbwrch. Rydyn ni'n aros am ganlyniadau'r asesiad a bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu os bydd y cyllid ar gael.

Bydd llwybrau MP3 ar gael i'w lawrlwytho o'r App Place Tales yn ddiweddarach eleni. Mae hyn yn golygu y gallwch wrando ar ffeiliau clywedol ger y pyst sydd â rhif arnynt ar hyd y llwybr. Bydd dau lwybr MP3, 'Tywysogion a Phinwydd' a 'Llwybr Seintiau, Môr a Thywod'. Bydd gwybodaeth am y llwybrau hyn i'w chael ar baneli newydd ac mae llyfryn yn cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd – dylai fod yn barod yn ddiweddarach eleni.

**Cwestiwn**: Sut gallwch chi sicrhau gwell gorfodaeth? – Faniau gwersylla yn treulio'r nos mewn amryfal feysydd parcio, Llyn Parc Mawr, Llys Rhosyr, Abermenai, defnyddio toiledau cemegol ac yna gwacáu'r cynnwys o gwmpas cyrion y meysydd parcio.

**Ateb**: Rhoir gwybod i ymwelwyr nad yw gwersylla dros nos yn cael ei ganiatáu yn Niwbwrch drwy arwyddion, drwy ein contractwr yn y caban talu am barcio a drwy ein staff. Os gwelir rhywun fel pe bai'n paratoi i barcio am y nos bydd ein staff neu ein contractwyr yn mynd atynt ac yn egluro na chânt wneud hynny. Os byddant yn anwybyddu'r cyngor bydd yr heddlu yn cael eu hysbysu. Mae mynediad i Niwbwrch

yn gyfrifoldeb ar y cyd rhwng yr ymwelydd a staff Cyfoeth Naturiol Cymru, fodd bynnag ni allwn fod yn gyfrifol am holl weithrediadau ac ymddygiad ymwelwyr, y bydd rhai ohonynt yn dewis aros dros nos er gwaethaf y wybodaeth a roddwyd iddynt a heb yn wybod i ni.

**Cwestiwn**: Arwyddbyst rhubanau plastig ar ochr Cefni – a allwn ni eu torri i lawr? Mae Gweilch y Pysgod yn defnyddio'r ardal.

**Ateb**: Nid ydym yn ymwybodol o'r hyn y cyfeirir ato yma ond byddwn yn rhoi ateb os ceir rhagor o wybodaeth.

**Cwestiwn**: A allwch chi egluro lle rydyn ni'n sefyll mewn perthynas â chynnal a chadw ffyrdd a meysydd parcio? Pa bryd bydd y brif ffordd yn cael ei hatgyweirio a'r maes parcio canol; Maes parcio canol - cyflwr dychrynllyd; Mae gofyn atgyweirio'r ffordd i lawr i'r prif faes parcio; Cynnal a chadw'r ffordd fynediad; Mae'r tyllau yn y ffyrdd yn beryglus erbyn hyn a hefyd ymylon dwfn y ffyrdd sy'n difrodi teiars/ymylon olwynion ayyb.; Tyllau yn y brif ffordd i'r traeth.

**Ateb**: Rydyn ni wedi tarmacio'r mynedfeydd i'r meysydd parcio ac wedi llenwi'r tyllau yn ddiweddar. Ar hyn o bryd rydyn ni yn y broses o gynllunio i atgyweirio ymylon y ffordd ac ychwanegu mannau pasio.

**Cwestiwn**: Chwythiad tywod – pam y symudwyd y llain gysgodi oedd ar hyd y traeth? Ystafelloedd dosbarth y tu allan ar gyfer ysgolion. Colli ymlusgiaid, gwelyau tegeirianau, trychfilod ayyb. Yn ôl y warden mae moresg 'arfordirol' yn rhywogaeth warchodedig, sut felly roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu cael gwared â miloedd o fetrau o foresg.

**Ateb**: Ar ôl blynyddoedd o ddirywiad, mae gwaith wedi ei wneud i helpu i adfer cynefinoedd o dywod noeth yn Niwbwrch.

Yn ystod y 60 mlynedd ddiwethaf, mae Niwbwrch wedi colli 94% o dwyni tywod symudol agored wrth iddynt gael eu gorchuddio gan laswellt a choed. Dinistriodd hyn y llac twyni arloesol unigryw sy'n angenrheidiol er mwyn i fywyd gwyllt prin ac arbenigol y twyni ffynnu.

Rydyn ni wedi symud llystyfiant oddi ar rai twyni ac wedi torri bylchau mewn twyni blaen fel y gall y tywod symud o gwmpas yn naturiol yn y gwynt. Bydd hyn yn helpu planhigion a thrychfilod prin megis petalys, cacwn y tywod, gwenyn turio, a chwilod prin sydd ar fin diflannu o'r ardal.

Mae twyni tywod symudol naturiol nid yn unig yn dda i natur, maent hefyd yn darparu system diogelu arfordirol mwy dynamig a all addasu i stormydd a newid yn lefel y môr. Maent hefyd yn dirluniau naturiol ffantastig ac yn fannau gwych i bawb eu mwynhau.

Mae'r rheolwyr wedi ymgymryd â gwella cynefinoedd ar hyd a lled y lleoliadau a chynyddu'r canran o dywod noeth o un y cant. Ers i'r gwaith gael ei gwblhau mae nifer o rywogaethau prin wedi coloneiddio'r ardaloedd lle'r adferwyd symudedd.

Roedd y gyfraith yn gwarchod moresg yn oes Elisabeth y Cyntaf. Heddiw mae'r cynefin yn cael ei warchod fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal Cadwraeth Arbennig Ewropeaidd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn proses blannu drwyadl fel rhan o unrhyw reolaeth. Mae miloedd o fetrau o foresg a thwyni yn cael eu colli bob blwyddyn o ganlyniad i stormydd y gaeaf ac effeithiau lefelau'r môr/newid yn yr hinsawdd. Mae rheolaeth adfer symudedd yn caniatáu ymfudiad naturiol cynefinoedd o'r fath tua'r tir, gan ddiogelu'r cynefin yn y tymor hir neu fyrrach.

**Cwestiwn**: Gofal arbennig o gwmpas llwybrau mynediad gan fod darnau miniog yn sownd wrth foncyffion. A yw hyn yn ddiogel?

**Ateb**: Cafodd boncyffion a adawyd ar ôl prosiect symudedd y twyni eu symud a'u gadael yng nghanol y goedwig ymhell oddi wrth fannau agored i'r cyhoedd. Mae gadael boncyffion mewn mannau diogel, i bydru yn y goedwig yn darparu cynefin i fywyd gwyllt.

**Cwestiwn**: A allwn ni gael rhagor o finiau baw cŵn, os gwelwch yn dda?

Biniau sbwriel/biniau baw cŵn yn y Cwningar, os gwelwch yn dda! Cais am finiau baw cŵn ym meysydd parcio Pen y Cob a Llyn Parc Mawr.

**Ateb**: Ni all Cyngor Ynys Môn wagio unrhyw finiau cŵn ychwanegol y byddwn yn eu gosod oherwydd prinder arian. Rydyn ni'n chwilio i weld a all cwmni masnachol wneud y gwaith gyn gosod biniau cŵn ychwanegol mewn meysydd parcio.

**Cwestiwn**: Pryd a sut y mae lladd gwair yn cael ei drefnu? A yw natur yn cael ei ystyried?

Diogelu Fflora - Pam ar y diwrnod pan oedd Trevor Dines yn apelio ar Radio 4 am ragor o ddiogelu blodau gwylltion ymyl y ffyrdd roedd contractwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn torri clychau'r gog, serenllys, a blodyn neidr ar y ffordd sy'n arwain at faes parcio'r cob, a hefyd yn strimio tormaen y gweunydd ar gylchfan y bwth talu, nid oedd y naill na'r llall yn amharu ar yr olygfa na'r mynediad; Mae rhai ardaloedd nad ydynt i'w torri yn ystod y tymor torri gwellt. Roedd ardaloedd a nodwyd yn agos i faes parcio Pen Y Cob a chylchfan y bwth talu gan fod tormaen y gweunydd yn tyfu yn yr ardal.

**Ateb**: Ar hyn o bryd rydyn ni'n ymgymryd ag adolygiad o weithgareddau rheoli er mwyn diogelu a gwella gwerth bywyd gwyllt y safle. Mae'r modd y mae torri gwellt yn cael ei reoli yn cael ei ystyried yn rhan o hyn.

**Cwestiwn**: A allwch chi egluro eich dull o reolaeth coed? Cwympo coed peryglus a marw; Nid yw llwybrau yn cael eu clirio ar ôl cwympo coed; Pryder ynglŷn â diogelwch coed marw neu rai yn cael eu cwympo; Incwm yn deillio o gwympo coed; Coed a gwympodd yn ystod stormydd 2014 yn dal yno.

Mae pob llwybr a thrywydd caniataol gan gynnwys Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi eu clirio o'r hyn a chwythwyd gan y gwynt ac mae arolwg llawn o ddiogelwch coed wedi nodi unrhyw goed marw neu rai sydd yn marw o fewn i hyd dwy goeden oddi wrth unrhyw un o'r llwybrau neu drywyddau hyn.

Defnyddir incwm sy'n deillio o werthu coed i ailstocio a rheoli ystâd coetir Llywodraeth Cymru er mwyn i genedlaethau'r dyfodol gael ei mwynhau.

Mewn perthynas â'r difrod a achoswyd gan stormydd 2014. Mae coedwig Niwbwrch yn y drydedd flwyddyn o raglen teneuo pum mlynedd. Mae'r ardaloedd sydd i'w teneuo wedi eu dynodi gan dîm cynllunio a'u trosglwyddo i'm huned cynaeafu ymhell cyn i'r gwaith gael ei wneud (hyd at dair blynedd). Unwaith y bydd yr ardaloedd hynny wedi eu dynodi, prin iawn yw'r tebygolrwydd y bydd newid gan fod yr ardaloedd yn cael eu gosod ar dendr gwerthiannau hirdymor.

Mae'r ardaloedd y cyfeirir atynt yn y cwestiwn i fod i gael eu teneuo yn ystod y gaeaf sydd i ddod, a bydd coed a chwythwyd gan y gwynt yn cael sylw ar yr un pryd.

Yn yr un modd ag mewn rhannau eraill o'r goedwig, bydd coed a chwythwyd gan y gwynt yn cael eu trin ar yr un pryd â'r gwaith teneuo.

Erbyn diwedd y rhaglen teneuo bydd y mwyafrif helaeth o goed a chwythwyd gan y gwynt wedi cael eu trin.

**diwedd**